# Childcare / Playwork Practitioner Volunteering & Survey | Arolowg Covid-19 Ymarferydd Gofal Plant a Gwaith Chwarae

Childcare and Playwork Practitioners provide a vital service in keeping the country working. Enabling key workers to work and ensuring that vulnerable children can access childcare during the Covid-19 outbreak will be essential.

Cwlwm is collecting information on behalf of Welsh Government to identify Childcare Practitioners and Playwork Practitioners from Childcare Settings who may be currently laid off or furloughed, who would potentially be willing to join a bank of voluntary/paid, suitably qualified staff to work in Childcare Settings elsewhere.

You should only complete this survey if you are interested in potentially joining a bank of staff that may be deployed to work in Childcare Settings elsewhere. It is likely you will be contacted about this by Welsh Government or your local authority.

The Welsh Government has commissioned Cwlwm to undertake this Childcare and Playwork Practitioner data collection exercise. The aim of this is to identify Childcare and Playwork Practitioners from Childcare and Playwork Settings which cannot operate, who would potentially be willing to join a bank of staff that may be deployed to work in Childcare Settings elsewhere. As part of this data collection exercise Cwlwm will be gathering information through a secure online survey.

The Welsh Government are the data controller for the research. The Welsh Government and your local authority will receive a copy of the data collected by Cwlwm.

The information collected during the project may be included in a report published on the Welsh Government website and possibly in other publications Cwlwm and Welsh Government, although this would not include any identifiable information.

Your participation in this research is completely voluntary. However, you should only complete the questions if you are potentially interested in joining a bank of staff willing to work in the childcare or Playwork sector to support the response to the pandemic. In addition, your views and experiences are important in order to help inform Welsh Government policies.

The contact for this research at Cwlwm is Jane O'Toole
E-mail address: info@clybiauplantcymru.org
Telephone number: 029 2074 1000

Mae Ymarferwyr Gofal Plant a Gwaith Chwarae yn darparu gwasanaeth hollbwysig yn cadw'r wlad i weithio. Bydd galluogi gweithwyr allweddol i weithio a sicrhau y gall plant hyglwyf gael mynediad at ofal plant yn ystod lledaeniad Covid-19 yn hanfodol.

Mae Cwlwm yn casglu gwybodaeth, ar ran Llywodraeth Cymru, i nodi Ymarferwyr Gofal Plant ac Ymarferwyr Gwaith Chwarae o Leoliadau Gofal Plant a allai fod wedi eu diswyddo neu eu gosod ar seibiant ar hyn o bryd, ac a fyddent o bosibl yn fodlon ymuno â banc o staff Gofal Plant a Gwaith Chwarae gwirfoddol/cyflogedig, â'r cymwysterau addas, i weithio mewn Lleoliadau Gofal Plant mewn man arall.

Dylech gwblhau'r arolwg hwn ddim ond os ydych â diddordeb o bosibl mewn ymuno â banc o staff a allai gael eu gosod i weithio mewn Lleoliadau Gofal Plant mewn man arall. Mae'n debygol y bydd Llywodraeth Cymru neu'ch Awdurdod Lleol yn cysylltu â chi ynglŷn â hyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Cwlwm i ymgymryd â'r ymarferiad casglu data hwn i Ymarferwyr Gofal Plant a Gwaith Chwarae. Nod yr arolwg yw nodi'r Ymarferwyr Gofal Plant a Gwaith Chwarae o Leoliadau Gofal Plant neu Waith Chwarae nad ydynt yn gallu gweithio, ac a fyddai o bosibl yn barod i ymuno â banc o staff y gellid gosod i weithio mewn Lleoliadau Gofal Plant mewn mannau eraill. Yn rhan o'r ymarferiad casglu data hwn bydd Cwlwm yn casglu gwybodaeth drwy arolwg diogel, ar-lein.

Llywodraeth Cymru yw rheolwr data'r gwaith ymchwil. Bydd Llywodraeth Cymru a'ch awdurdod lleol yn derbyn copi o'r data a fydd wedi ei gasglu gan Cwlwm.

Mae'n bosibl y bydd y wybodaeth a gesglir yn ystod y prosiect yn cael ei chynnwys mewn adroddiad a gyhoeddir ar wefan Llywodraeth Cymru, ac o bosibl mewn cyhoeddiadau eraill o eiddo Cwlwm a Llywodraeth Cymru, er na fyddai hyn yn cynnwys gwybodaeth a fyddai'n fodd adnabod.

Mae eich Cyfranogaeth yn y gwaith ymchwil hwn yn gwbl wirfoddol. Er hynny, dylech gwblhau'r cwestiynau ddim ond os oes gennych ddiddordeb posibl mewn ymuno â banc o staff sy'n barod i weithio yn y sector gofal plant i gefnogi'r ymateb i'r pandemig. Hefyd, mae eich safbwyntiau a'ch profiadau'n bwysig o ran helpu i gyfrannu at bolisïau Llywodraeth Cymru.

Person cyswllt Cwlwm o ran y gwaith ymchwil hwn yw Jane O'Toole
Cyfeiriad E-bost: info@clybiauplantcymru.org
Rhif Cyswyllt: 02920 741000

| PRIVACY NOTICE | HYSBYSIAD PREIFATRWYDD |
|---|---|
| **What personal data do we hold and where do we get this information?**<br>Personal data is defined under the General Data Protection Regulation (GDPR) as 'any information relating to an identifiable person who can be directly or indirectly identified by reference to an identifier'. | **Pa ddata personol yr ydym ni yn eu cadw ac o ble yr ydym yn cael y wybodaeth yma?**<br>Diffinnir data personol o dan Reoliad Cyffredinol Diogelu Data (GDPR) fel 'unrhyw wybodaeth gysylltiedig â pherson y mae modd ei adnabod, y gellir ei adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy gyfeirio at fodd adnabod'. |
| This data collection exercise and survey is being advertised widely. Those who wish to do so can choose to register their interest in working as a Childcare or Playwork Practitioner, and to complete the survey questions. | Mae'r ymarferiad casglu data hwn yn cael ei hysbysebu'n eang. Gall y sawl I sy'n dymuno gwneud, ddewis i gofrestru eu diddordeb mewn gweithio fel ymarferydd Gofal Plant neu Waith Chwarae, a chwblhau cwestiynau'r arolwg. |
| As part of this research we will be collecting the following personal information:<br>• Name<br>• Telephone number<br>• Email address | Yn rhan o'r gwaith ymchwil hwn byddwn yn casglu'r wybodaeth bersonol ganlynol.<br>• Enw<br>• Rhif ffôn<br>• Cyfeiriad e-bost |
| Cwlwm will provide Welsh Government with your name, contact details, and answers to the survey questions. The Welsh Government will use this information to potentially contact you to discuss Childcare or Playwork Practitioner opportunities or undertake further research to inform policy in response to the pandemic. | Bydd Cwlwm yn rhoi eich enw, manylion cyswllt a'ch atebion i gwestiynau'r arolwg i Lywodraeth Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r wybodaeth yma i gysylltu â chi o bosibl i drafod cyfleoedd i ymarferwyr gofal plant neu ymgymryd ag ymchwil pellach i gyfrannu at bolisi mewn ymateb i'r pandemig. |
| Cwlwm will provide local authorities with your contact details and availability only. This is because you have indicated you would be willing to work in a childcare setting. Where staff are needed, local authorities will contact you directly. | Bydd Cwlwm yn rhoi gwybod i awdurdodau lleol eich manylion cyswllt ac am eich argaeledd. Bydd hyn oherwydd y byddwch wedi mynegi y byddech yn barod i weithio mewn lleoliad gofal plant. Lle bydd angen staff, bydd awdurdodau lleol yn cysylltu â chi'n uniongyrchol. |
| We will not share or use your information for commercial or marketing purposes. | Ni fyddwn yn rhannu nac yn defnyddio'ch gwybodaeth i bwrpasau masnachol na marchnata. |
| Your participation is voluntary. However you should only complete the questions if you are potentially interested in joining a bank of staff willing to work in the childcare sector to support the response to the pandemic. | Mae eich cyfranogaeth yn wirfoddol. Er hynny, dylech ateb y cwestiynau ddim ond os ydych â diddordeb posibl mewn ymuno â banc o staff sy'n barod i weithio yn y sector gofal plant i gefnogi'r ymateb i'r pandemig. |
| **What is the lawful basis for using your data?**<br>The lawful basis for processing information in this data collection exercise is our public task; that is, exercising our official authority to undertake the core role and functions of the Welsh Government. | **Beth yw'r sail gyfreithlon dros ddefnyddio'ch data?**<br>Y sail gyfreithlon dros brosesu gwybodaeth yn yr ymarferiad casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, ymarfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru. |
| **How secure is your personal data?**<br>Personal information provided to Cwlwm is always stored on a secure server. The data can only be accessed by a limited number of staff working on this project. Cwlwm will only use the data for the purposes set out in this privacy | **Pa mor ddiogel yw'ch data personol?**<br>Cedwir gwybodaeth bersonol a roddir i Cwlwm bob tro ar weinydd diogel. Gellir cyrchu'r data ddim ond gan nifer cyfyngedig o staff sy'n gweithio ar y prosiect hwn. Bydd Cwlwm yn defnyddio'r data yn unig i'r pwrpasau a osodir |

| | |
|---|---|
| notice. All data sent to the Welsh Government and Local Authorities will be sent via a secure transfer mechanism. | yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn. Caiff yr holl ddata a anfonir i Lywodraeth Cymru a'r Awdurdodau lleol eu hanfon drwy fecanwaith trosglwyddo diogel. |
| Cwlwm has procedures to deal with any suspected data security breaches. If a suspected breach occurs, Cwlwm will report this to the Welsh Government who will notify you and any applicable regulator where we are legally required to do so. | Mae gan Cwlwm weithdrefnau i fynd i'r afael ag unrhyw dor-rheol diogelwch a ddrwgdybir. Bydd Cwlwm yn adrodd ar hyn i Lywodraeth Cymru, a fydd yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr cymwys lle mae'n ofynnol i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith. |
| Personal data provided to Welsh Government is held on secure servers, and for this project a folder has been created that has access restricted only to the immediate research team. Your contact details will be stored in this restricted folder. | Cedwir data personol a roddir i Lywodraeth Cymru ar weinyddion diogel, ac mae ffolder wedi ei chreu ar gyfer y prosiect yma, un y mae mynediad iddi'n gyfyngedig i'r tîm ymchwil uniongyrchol yn unig. Caiff eich manylion cyswllt eu storio yn ffolder cyfyngedig hwn. |
| Personal data provided to local authorities will be held on secure servers, and for this project a folder will be created that has access restricted only to staff working directly on this scheme. Your contact details will be stored in this restricted folder. | Bydd data personol a roddir i awdurdodau lleol yn cael eu cadw ar weinyddion diogel, a bydd ffolder yn cael ei chreu ar gyfer y prosiect yma, un y mae mynediad iddi'n gyfyngedig i'r staff sy'n gweithio'n uniongyrchol ar y cynllun hwn. Caiff eich manylion cyswllt eu storio yn y ffolder cyfyngedig hwn. |
| All data gathered through this project will be reported in an anonymised format. It will not contain your contact details and any identifiable information in open-ended answers will be removed. Cwlwm will use the information gathered to produce a report that may be published on the Welsh Government website. This report will not include any information that could be used to identify individual participants. | Adroddir ar yr holl ddata a gesglir drwy'r prosiect hwn ar fformat dienw. Ni fydd yn cynnwys eich manylion cyswllt a thynnir ymaith unrhyw wybodaeth mewn atebion penagored lle bydd modd eich adnabod. Bydd Cwlwm yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir i lunio adroddiad a gaiff ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Ni fydd yr adroddiad yma'n cynnwys unrhyw wybodaeth y gellir ei defnyddio i adnabod cyfranogwyr unigol. |
| Where the Welsh Government undertakes further analysis or follow up research in support of the purposes outlined above, this work may be carried out by an accredited third party (e.g. a research organisation or a consultancy company). Any such work will only be undertaken under contract. Welsh Government's standard terms and conditions for such contracts set out strict requirements for the processing and safekeeping of personal data. | Lle bydd Llywodraeth Cymru'n ymgymryd â dadansoddiad pellach neu ymchwil ddilynol i gefnogi'r pwrpasau a amlinellir uchod, gellid gwneud y gwaith hwn gan drydydd parti a achredir (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Ymgymerir â gwaith o'r fath o dan gontract yn unig. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn gosod gofynion llym ar brosesu data personol a'u cadw'n ddiogel. |
| **How long do we keep your personal data?**<br>Cwlwm will hold personal data during the contract period, and any personal data not already removed will be deleted by Cwlwm three months after the end of the project. This includes your contact details. | **Am ba mor hir yr ydym ni'n cadw eich data personol?**<br>Bydd Cwlwm yn cadw data personol yn ystod cyfnod y contract, a chaiff unrhyw ddata personol na fydd eisoes wedi ei dynnu ymaith yn cael eu dileu gan Cwlwm dri mis wedi diwedd y contract. Mae hyn yn cynnwys eich manylion cyswllt. |
| Welsh Government will keep your information for a year after the end of the scheme. During this time they may pass your contact details to a third party evaluator for research purposes. | Cedwir eich gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru am flwyddyn wedi diwedd y cynllun. Yn ystod y cyfnod hwn mae'n bosibl y byddant yn trosglwyddo'ch manylion cyswllt i werthuswr trydydd parti i bwrpasau ymchwil. |

Your local authority will keep your data until 6 months after the end of the scheme.

**Individual rights**

Under GDPR, you have the following rights in relation to the personal information you provide as part of this [project], you have the right:

- To access a copy of your own data;
- For us to rectify inaccuracies in that data;
- To object to or restrict processing (in certain circumstances);
- For your data to be 'erased' (in certain circumstances); and
- To lodge a complaint with the Information Commissioner's Office (ICO) who is our independent regulator for data protection.

The contact details for the Information Commissioner's Office are: Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF. Phone: 01625 545 745 or 0303 123 1113. Website: www.ico.org.uk

**Further Information**

If you have any further questions about how the data provided as part of this study will be used by the Welsh Government or wish to exercise your rights using the General Data Protection Regulation, please contact:

Name: Faye Gracey
E-mail address: faye.gracey@gov.wales
Telephone number: 03000 257459

The Welsh Government's Data Protection Officer can be contacted at:
Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ
Email: DataProtectionOfficer@gov.wales.

Bydd eich awdurdod lleol yn cadw'ch data hyd at 6 mis wedi diwedd y cynllun.

**Hawliau unigol**

O dan GDPR, mae gennych yr hawliau canlynol mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol yr ydych yn ei darparu yn rhan o'r [prosiect] yma, mae gennych yr hawl:

- I gyrchu copi o'ch data eich hun;
- Ein bod ni'n unioni anghywirdebau yn y data hynny;
- I wrthwynebu neu wrthod prosesu (mewn rhai amgylchiadau
- I'ch data gael eu 'dileu' (mewn rhai amgylchiadau); a
- Cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), sef ein rheoleiddiwr annibynnol o ran diogelu data.

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw: Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF. Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113. Gwefan: www.ico.org.uk

**Gwybodaeth Bellach**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach ar sut y defnyddir y data a ddarperir yn rhan o'r astudiaeth hon gan Lywodraeth Cymru, neu os hoffech arfer eich hawliau drwy ddefnyddio Rheoliad Cyffredinol Diogelu Data, gofynnir i chi gysylltu â:

Enw: Faye Gracey
Cyfeiriad e-bost: faye.gracey@gov.wales
Rhif ffôn: 03000 257459

Gellir cysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru yn:
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ
Ebost: DataProtectionOfficer@gov.wales.

You can access the survey at https://www.surveymonkey.co.uk/r/cwlwm-childcare-practitioner-survey

Gallwch gyrchu'r arolwg ar https://www.surveymonkey.co.uk/r/cwlwm-childcare-practitioner-survey